OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 480 (Cy. 153)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016

Gwnaed	*24 Mawrth 2016*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth:

Cyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont)
Cyffordd 13 (Abergwyngregyn)
Cyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn)
Cyffordd 17 (Morfa Conwy)
Cyffordd 18 (Cyffordd Llandudno)
Cyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy)
Cyffordd 20 (Bae Colwyn)
Cyffordd 21 (Bae Colwyn)
Cyffordd 22 (Hen Golwyn)
Cyffordd 23 (Llanddulas)
Cyffordd 24 (Abergele)
Cyffordd 25 (Bodelwyddan)
Cyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy)
Cyffordd 27 (Llanelwy)
Cyffordd 28 (Y Waun)
Cyffordd 29 (Rhuallt/Pant y Dulaith)
Cyffordd 30 (Travellers' Inn)
Cyffordd 31 (Caerwys)
Cyffordd 33 (Llaneurgain)
Cyffordd 35 (Dobshill)
Cyffordd 36 (Brychdyn)

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 15a (Penmaenmawr).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 16a (Dwygyfylchi).

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 23a (Pen-sarn).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 24a (Llan Sain Siôr).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Faenol Bropor.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 27a (Pont Dafydd).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Coed Bach.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32 (Cyffordd Dolphin).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 32 (Pentre Helygain).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32a (Springfield a Helygain).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32a (Springfield) (gan gynnwys lôn gyntaf yr adran tair lôn).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 32a (Billy Jeans).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32b (Depo Helygain).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Little Chef, Helygain.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain yr A55 yng Nghoed y Cra.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33a (Brookside) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33a (Cei Connah).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Pinfold Lane, Alltami.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 o Alltami wrth Gyffordd 33b.

Y darnau cyfan o'r ddolen wrthglocwedd tua'r dwyrain, y ddolen allanol tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Ewloe) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Conwy).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Dewi Sant, Ewloe.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 (i Gaer) wrth Gyffordd 34.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36a (Brychdyn).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A494 wrth Plough Lane, Aston.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A494 yn Queensferry.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A494 yn Drome Corner.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 yn Drome Corner.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy.

Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r dwyrain o Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy'r A494 i'r M53.

Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r gorllewin o'r M53 i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy'r A494.